# DOLEN

YSGOL BRO TEIFI

Rhifyn 15 - 1af o Fawrth 2026

## Gair gan y Pennaeth

**Dydd Gŵyl Dewi Hapus i bob rhiant, gofalwr a ffrind!**

Croeso i rifyn diweddaraf ein cylchlythyr, Dolen. Ers ein rhifyn diwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn brysur iawn, a byddwch yn darllen am rai o'r pethau sydd wedi bod yn digwydd yn y rhifyn hwn.

Newid nodedig i'n disgyblion oed uwchradd y tymor hwn fu lansio pocedi ffôn symudol Yondr. Er mai newid cymharol ddiweddar i'n polisi yw hwn, mae'r staff eisoes yn sylwi ar yr effeithiau cadarnhaol o fod yn ysgol ddi-ffôn symudol. Hoffwn ddiolch i bob disgybl am eu cydweithrediad, ac i chithau fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at barhau â'n taith gyda Yondr a gweld yr effeithiau cadarnhaol yn parhau i ddatblygu o fewn ein cymuned ysgol.

Rwyf wedi cynnwys dolen ar waelod y dudalen hon i gasglu eich barn am faes parcio'r ysgol. Rydym yn awyddus i weithio gyda'n partneriaid yn yr awdurdod lleol i wella eich profiad o'r maes parcio, a byddem yn croesawu eich barn yn fawr iawn.

Darllenwch ymlaen i ddysgu beth sydd wedi bod yn digwydd yn ystod yr hanner tymor diwethaf, ac edrychaf ymlaen at gysylltu â chi eto cyn y Pasg.

**Holiadur Maes Parcio 2026 - Cliciwch yma**

*G Evans*

### Amserau Apwyntiadau Gyda'r Pennaeth

**Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)**
**Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)**

**I wneud apwyntiad, ewch i**

https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/



# Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## SIARAD CYHOEDDUS SEREN

Llongyfarchiadau gwresog i dîm siarad cyhoeddus Blwyddyn 9 am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth ddadlau Mace, SEREN. Daeth y tîm yn ail. Llongyfarchiadau mawr i Efa, Angharad, Magi a Lola.







## SIARAD CYHOEDDUS Y ROTARI

Teithiodd tîm Blwyddyn 10 i Landeilo i gystadlu yn Siarad Cyhoeddus y Rotari. Da iawn i Esyllt, Dewi a Magw am eu siarad a dadlau graenus. Llongyfarchiadau i Esyllt am ddod yn y tri uchaf fel Cadeirydd.

## YSGRIFENNU CREADIGOL

Llongyfarchiadau mawr i Mali Evans - enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Cenarth.



Cafwyd llwydiant hefyd yn Eisteddfod Llandyfaelog, y tro hwn am erthygl ar gyfer papur bro am gymeriad lleol (Bl.7-9). Llongyfarchiadau i'r canlynol:

1af - Efa Dixon
2il - Einir George
3ydd - Luned Davies





# CWRS SGIO I'R EIDAL




Ar ddechrau Ionawr aeth criw o 60 o ddisgyblion Blwyddyn 10 a 12 ar antur sgio i fynyddoedd Sestriere yn yr Eidal. Cafwyd wythnos fendigedig o sgio gyda sgiwyr profiadol a sgiwyr dibrofiad yn elwa'n fawr o'r cyfle. Gwelwyd datblygiad gwych yn sgiliau sgio'r disgyblion wrth i'r wythnos fynd rhagddi. Roedd bwyd y gwesty o'r safon uchaf a gwnaeth y disgyblion fwynhau'r gweithargeddau cymdeithasol gyda'r hwyr megis y noson gwis, noson crepes a thaith i'r sinema lleol. Diolch i'r disgyblion am fod ar eu hymddygiad gorau gydol y daith ac i'r staff am drefnu taith fythgofiadwy arall.











# Gyrfaoedd

## SIARADWRAIG WADD

Diolch i Gwenyth Tandy o gwmni Williams & Bourne am ddod atom ni i siarad am y daith i fod yn gyfreithwraig.



## FFUG GYFWELIADAU BLWYDDYN 11



Fel paratoad ar gyfer eu camau nesaf, cafodd Blwyddyn 11 sesiwn ysgrifennu CV a sesiwn sgiliau cyfweld. Yn dilyn hynny, croesawyd cyflogwyr i'r ysgol er mwyn cynnal ffug gyfweliadau gyda'r disgyblion.



## Her 'Tasty Careers' Bl.9

**Ym mis Ionawr, cafodd ein disgyblion Blwyddyn 9 y cyfle i gymryd rhan yn yr Her 'Tasty Careers.'**

Yr her i'n disgyblion oedd dylunio cynnyrch newydd sydd â manteision iechyd clir, sy'n gynaliadwy, ac sydd hefyd yn siŵr o werthu. Her a hanner!
Byddai angen i'r cynnyrch fod yn wreiddiol, gydag enw brand, logo a slogan gwreiddiol. Roedd angen iddyn nhw gyflwyno'u syniad i banel o feirniaid hefyd. Croesawyd Rhian a Phoebe o Ganolfan Bwyd Cymru, a Simon a Stacy o gwmni Delineate, i feirniadu.

**Bwyd a Blas** oedd yn fuddugol yn y rownd ysgol. Dymunwn yn dda iddyn nhw wrth iddyn nhw gystadlu eto, yn y rownd derfynol fis nesaf ym Mharc y Sgarlets. Amdani!



# Newyddion Arall!



## CERDD TEIFI

Llongyfarchiadau i Alaw Evans o Flwyddyn 13 bu'n perfformio yng nghyngerdd lawnsio Cerdd Teifi yn Theatr Felinfach. Cafodd gyfle arbennig i berfformio gyda Gwawr Edwards a Catrin Finch...dwy berfformwraig broffesiynol o Geredigion. Cyfle arbennig!

## CWIS 'DIM CLEM'

**Bu 4 o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwis Dim Clem yn ddiweddar. Daethant yn drydydd yn y rownd sirol gyda sgôr uchel iawn. Llongyfarchiadau!**




## RHODD ARBENNIG



Yn ddiweddar, derbyniodd yr ysgol rodd arbennig o grys rygbi Cymru wedi'i lofnodi gan gyn-chwaraewr Cymru a'r Llewod, Gareth Davies, gan y Cynghorydd Keith Evans a'r Cynghorydd Wyn Thomas. Prynwyd y crys gan y ddau gynghorydd mewn ocsiwn i godi arian ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las 2026. Bydd y crys yn cael ei arddangos yn yr ysgol i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr. Diolch o galon i'r ddau am eu haelioni a'u cefnogaeth i'r Eisteddfod.

# Diweddariad o waith Fforymau Llais y Disgybl

Fe ddathlodd ein disgyblion Diwrnod Santes Dwynwen drwy anfon negeseuon hyfryd at ei gilydd, yn ogystal â Love Hearts! Diolch i'r Fforwm Cymreictod am drefnu, ac yn arbennig i Mali, Efa, Peredur, Anwen a Mari o'r Chweched Dosbarth.






Fforwm Cymreictod

Cefnogodd yr ysgol ymgyrch Rotari Bae Ceredigion i gasglu tybiau siocledi gwag, er mwyn eu hailgylchu. Mae’r ymgyrch hefyd yn cefnogi elusen Macmillan. Diolch i bawb a gefnogodd. Daeth 107 o dybiau i’r ysgol!



Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru mewn amryw o ffyrdd eleni. Chwaraewyd cerddoriaeth Gymraeg yn ystod y dydd sy’n ateb un o nodau Siarter Iaith y Fforwm, sef codi ymwybyddiaeth disgyblion o gerddoriaeth Gymraeg. Bu rhai disgyblion o flynyddoedd 3 a 4, ac o flynyddoedd 8 a 10 ynghlwm â Chwis Dydd Miwsig Cymru a drefnwyd eleni gan ‘e-sgol’. Llongyfarchiadau i dîm bl.10 am ddod yn y 10 uchaf dros Gymru yn y cwis Uwchradd! Trefnodd rhai o ddisgyblion y Chweched fideo o rai aelodau o staff a disgyblion yn rhannu’u hoff ganeuon.




Fforwm Cymreictod



[Fideo Dydd Miwsig Cymru YBT 2026]

# Chwaraeon YBT

## HOCI





Cafwyd diwrnod arbennig iawn yn nhwrnamaint hoci dan 12 Ceredigion. Gwelwyd perfformiad anhygoel gan Dîm 1 – ennill 7 gêm ac un gêm gyfartal, sy'n golygu eu bod yn Bencampwyr Ceredigion!
Gwnaeth ein Tîm 2 hefyd yn arbennig o dda, gan ennill 3 gêm, cael 1 gêm gyfartal a cholli 3 – ymdrech wych i'r merched yma sydd yn newydd i hoci.
Roedd y ddau dîm yn arbennig, yn chwarae gyda balchder, brwdfrydedd ac ysbryd tîm cryf.

## RYGBI – PLÂT CYMRU



ROWND 16 OLAF PLÂT CYMRU YNG NGHAERFFILI

ST CENNYDD 22 – BRO TEIFI 55

Cafwyd perfformiad anhygoel, llawn angerdd, sgil a gwaith tîm gan ein chwaraewyr. Ymlaen i'r rownd yr wyth olaf! Pob lwc.

## HOCI – PENCAMPWYR DYFED!

Llongyfarchiadau mawr i'n timau hoci Dan 12 a Dan 14 ar ddod yn Bencampwyr Dyfed.
Chwaraeodd ein tîm Dan 12 hoci arbennig yn erbyn timau cryf o Benweddig, Aberdaugleddau, Bro Myrddin a Bro Dinefwr. Dangoswyd sgiliau gwych, gwaith tîm rhagorol a phenderfyniad cadarn drwy gydol y gystadleuaeth, gan ennill pob gêm.



Chwaraeodd y tîm Dan 14 hoci gwych hefyd yn erbyn gwrthwynebwyr cryf o Breseli, Bro Dinefwr, Henry Richard, Milford a Dyffryn Aman. Talodd eu gwaith caled, eu gwydnwch a'u chwarae aeddfed ar ei ganfed, gan sicrhau eu bod yn gorffen yn bencampwyr hefyd.



# Chwaraeon YBT

## RYGBI

Rydym yn falch iawn o dîm merched Blwyddyn 7 wrth iddyn nhw chwarae yn Rownd Derfynol Rhanbarthol y Scarlets yn Llanymddyfri.



Un fuddugoliaeth, un gêm gyfartal — a cholli'r teitl ar wahaniaeth pwyntiau yn unig. Mor agos!

Perfformiad gwych, agwedd arbennig a dyfodol disglair o'u blaenau. Da iawn ferched!

## PÊL-RWYD







Cystadlodd disgyblion Blwyddyn 6 yng Nghystadleuaeth pêl-rwyd cymysg De Ceredigion yr Urdd. Dangosodd pawb sgiliau pêl arbennig a gwaith tîm penigamp! Llongyfarchiadau i dîm A am ennill y gystadleuaeth ac am ennill wedyn yn erbyn pencampwyr Gogledd Ceredigion. Byddan nhw nawr yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol.

# Chwaraeon tu hwnt i'r ysgol

## Mae nifer o'n disgyblion wedi bod yn cael profiadau arbennig mewn nifer o chwaraeon amrywiol. Dyma hanes y criw diweddaraf...

### Hwylio

Llongyfarchiadau i Steffan Williams ar ei lwyddiant diweddar. Arweiniodd Steffan dîm ILCA Cymru i fuddugoliaeth yn yr Alban yn y Cwpan Celtaidd.
Ef oedd yr hwyliwr cyntaf o Gymru i orffen y ras a gorffennodd yn drydydd yn gyffredinol. Arbennig Steffan!





### Dartiau

Bu Rhodri Phillips yn cystadlu yn y 'JDC Winmau Masters' yn Aylesbury. Mae Rhodri wedi cyrraedd y 6ed safle yng Nghymru yng nghyfres y JDC Volts. Arbennig!



### Rygbi

Llongyfarchiadau mawr i Iestyn, Gwil, Llew ac Elis am eu cyfraniad arbennig i'r ddwy gêm agoriadol i Rhanbarth Gorllewin y Sgarlets. Buddugoliaethau haeddiannol a pherfformiadau gwych gan y bechgyn a'u tîm. Gwellhad buan i Gwion hefyd ar ôl ei anaf diweddar. Rydym yn edrych ymlaen i'w weld nôl ar y cae rygbi yn fuan.



# Chwaraeon tu hwnt i'r ysgol

## Hoci



**Llongyfarchiadau i Haf, Marged, Lois a Gwenno sydd wedi cael eu dewis i dîm hoci Dan 15 Dyfed. Arbennig ferched.**

## Rygbi




**Llongyfarchiadau i Ben, Corey, Cerith, Iari, Tomos, Leylan, Jac, Finn a Rhys sydd wedi cynrychioli tîm Llwybr Datblygiad Chwaraewyr Ceredigion yn ddiweddar. Gwych, fechgyn!**

# Chwaraeon

## TRAWSGWLAD



Llongyfarchiadau mawr i William, Leo a Twm am redeg dros Geredigion ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Dyfed ym Maes Awyr Carew yn ddiweddar — mewn amodau heriol dros ben!

## BYD Y CEFFYLAU



Llongyfarchiadau mawr i Wil o Flwyddyn 3 am ennill Tlws Pencampwr Tywysydd Ifanc gan Gymdeithas Merlod a Chobiau Cymreig Dyfed - go lew ti!

# Ffair Iaith








Mwynhaodd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn y 'Ffair Iaith' a oedd wedi ei threfnu gan Cardi Iaith fel rhan o waith 'Y Siarter Iaith'. Diwrnod yn llawn o weithgareddau hwyliog oedd yn dangos sut y gellir defnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfryngau.














Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 6 yng Nghaerdydd yn ffilmio'r rhaglen 'Tekkers'. Bydd rhaid i chi wylio’r rhaglen er mwyn gwybod pa mor llwyddiannus fuon nhw!

# Perfformio!





**Cafodd disgyblion Blynyddoedd 3-6 gyfle i fod yn rhan o weithdŷ drama o dan arweiniad Theatr Felinfach y tymor hwn. Roedd y sesiynau yn rhai hwylus ac yn cynnig profiadau amrywiol i'n disgyblion.**

Theatr Felinfach

# Dyddiadau Pwysig Tymor y Gwanwyn

| Dyddiad<br>Date | Digwyddiad | Event |
|---|---|---|
| 23/02/2026 | Noson Ddewisiadau Blwyddyn 9 | Year 9 Options Evening |
| 23+24/02/2026 | Nosweithiau Rheini/ Gofalwyr Meithrin -Bl 6 | Nursery-Yr 6 Parents/ Carers Evening |
| 26/02/2026 | Eisteddfod Offerynnol yr Urdd - Ysgol Dyffryn Aeron | Urdd Instrumental Eisteddfod - Ysgol Dyffryn Aeron |
| 06/03/2026 | **DIWRNOD HMS** - Ysgol ar Gau i ddisgyblion | **INSET DAY** - School Closed for Pupils |
| 09/03/2026 | Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 8 | Year 8 Parents and Carers Evening |
| 10/03/2026 | Eisteddfod Rhanbarth Urdd Oed Uwchradd - Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth | Secondary Age Regional Urdd Eisteddfod - Aberystwyth Arts Centre |
| 18/03/2026 | Eisteddfod Ddawns a Theatr yr Urdd - Ysgol Bro Teifi | Urdd Dance and Theatre Eisteddfod - Ysgol Bro Teifi |
| 23/03/2026 | Eisteddfod Cylch Teifi - Aberteifi | Teifi Area Eisteddfod - Aberteifi |
| 30/03/26 - 10/04/26 | Gwyliau Pasg | Easter Holidays |
| 18/04/2026 | Eisteddfod Rhanbarth Urdd Oed Cynradd - Neuadd y Celfyddydau, Aberystwyth | Primary Age Regional Urdd Eisteddfod - Aberystwyth Arts Centre |